



Y drefn symud i fod yn ysgol ddi-arian - Beth sydd angen i chi fel rhieni ei wneud?

1. Cadarnhau eich manylion e-bost a ffon symudol gyda'r ysgol.
(Llythyr 1 - <https://tinyurl.com/y5rf9ohx>)
2. Agor cyfrif ar wefan Cyngor Gwynedd drwy ddilyn www.gwynedd.llyw.cymru/fynghyfrif
Bydd angen cyfeiriad e-bost i gwblhau'r broses.
3. Creu cyfrif 'Schoolgateway' - am gymorth i ddefnyddio'r system dilynwch <https://tinyurl.com/yvfl3dln> am ganllawiau yn y Gymraeg.
Bydd angen cyfeiriad e-bost a rhif ffôn symudol i gwblhau'r broses. Rhaid i'r cyfeiriad e-bost a rhif ffôn symudol gyfateb gyda'r manylion yr ydych wedi ei ddarparu i'r ysgol.
4. Cwblhau'r ffurflen ganiatâd i'ch plentyn gofrestru ar y system ddi-arian Arlwygo (Biometric)
<https://tinyurl.com/y289nyuo>

Amserlen

- 01.03.19 Dwy daith ysgol - Taith Sgïo 2020, a Thaith Paris 2019 yn fyw ar school gateway - felly mae'n bosib i rieni'r disgyblion sy'n mynd ar y teithiau hyn dalu ar lein.
- 05.03.19 Bydd cwmni Nationwide allan yn yr ysgol yn cymryd templedi o fys/bawd pob disgybl. **Mae'n hanfodol fod y ffurflen ganiatâd (pwynt 4 uchod) wedi ei ddychwelyd i'r ysgol cyn y dyddiad hwn.**
- 03.04.19 Talu am Ginio Ysgol 2018/19 yn fyw ar school gateway - felly mae'n bosib i bob rhiant dalu ar lein o'r dyddiad hwn. **Cofiwch - bydd angen i'ch plentyn barhau i ddod ag arian cinio hyd at 09.04.19 nes i'r system fynd yn fyw yn y ffreutur ar 10.04.19.**
- 10.04.19 System Di-Arian Arlwygo yn mynd yn fyw yn y ffreutur. **O'r diwrnod hwn, ni fydd y ffreutur yn derbyn unrhyw arian parod, felly mae'n hanfodol eich bod wedi cymryd y camau uchod, ac wedi rhoi arian yng nghyfrif cinio eich plentyn ar school gateway.**

Bydd pob taith ysgol y dyfodol yn cael eu rhoi ar school gateway, a bydd yn rhaid i rieni dalu amdanynt ar-lein. Ni fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw arian parod / sieciau am driphau ysgol ar ôl 31.05.19.

Os yr ydych yn cael trafferth creu cyfrif Cyngor Gwynedd/ School Gateway am ba bynnag reswm, yna cysylltwch â'r ysgol i drafod. Yn yr un modd, os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder am y drefn o dalu ar-lein neu'r system biometric, cysylltwch â ni am gymorth.

Yn gywir,

Gwyn Tudur
Pennaeth